# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 20 MEDI 2023 AM 1.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo a Phriffyrdd), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) a D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), R. Hartshorn (Pennaeth Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Cymunedol a Hamdden), A. West (Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), G. Richards (Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Priffyrdd), P. Hudson (Arweinydd Tîm Menter Fusnes ac Adnewyddu), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), S. Wilcox (Rheolwr Datblygu Rhaglen), J. Roberts-Waite (Pennaeth Strategaeth a Datblygu), M. Noakes (Rheolwr Datblygu), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai)

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w wylio.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai) C. Harrhy (Prif Weithredwr) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – 26 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 13 Rhagfyr 2023.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

## 5. STRATEGAETH DATBLYGU A LLYWODRAETHU – TAI

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol yr adroddiad ar ran yr Aelod Cabinet dros Dai. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod 6300 o bobl ar Gofrestr Tai Cyffredin y Cyngor ar hyn o bryd, ac o'r rheiny, mae 360 o bobl mewn llety dros dro ac yn aros am gartrefi sy'n gweddu'n well i'w hanghenion, ac mae'n amlwg o effeithiau parhaus COVID a'r Argyfwng Costau Byw gyda'r cynnydd mewn rhenti a morgeisi y bydd galw pellach am dai Cyngor. Fel un o 11 Cyngor ledled Cymru sydd wedi cadw eu stoc dai, mae Cartrefi Caerffili, mewn sefyllfa fanteisiol o allu adeiladu cartrefi fforddiadwy carbon isel newydd mewn ymateb i'r angen cynyddol dybryd.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gartrefi Caerffili ddarparu 100 o gartrefi fforddiadwy carbon isel y flwyddyn ac i gymeradwyo bod Cartrefi Caerffili yn mabwysiadu Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru, sy'n nodi safonau ansawdd a dylunio lefel uchel a fydd yn llywio ac yn sail i bob datblygiad Cartrefi Caerffili.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried yn y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a gynhaliwyd ddydd Mawrth 18 Gorffennaf, 2023, a nododd y sylwadau a wnaed.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am gynnwys y Strategaeth Datblygu a Llywodraethu gyntaf ar gyfer Cartrefi Caerffili.

Nodwyd bod y Strategaeth yn nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol gan Cartrefi Caerffili fel sail i ddatblygiad cartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu, yr amcanion craidd, y broses ddatblygu, a'r Strategaeth gyffredinol i gynyddu'r ddarpariaeth.

Nodwyd ymhellach fod yr adroddiad yn cynnig creu Bwrdd Prosiect Datblygu a Llywodraethu a fyddai'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ddatblygu ac a fydd wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros gytuno ar ystod o benderfyniadau sy'n angenrheidiol fel sail i greu rhaglen ddatblygu hyblyg, sy'n debyg i Fwrdd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol. Bydd Bwrdd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn cael ei gymryd i mewn i'r Bwrdd Prosiect Datblygu a Llywodraethu.

Yn dilyn ymholiad a godwyd dywedodd y Pennaeth Tai wrth y Cabinet y byddai egwyddorion cyffredinol y Siarter Creu Lleoedd o fudd i holl drigolion Caerffili yn y dyfodol, nid yn unig

datblygiadau unigol, ond byddai’n gwella'r amgylchoedd a'r cymdogaethau ledled y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol drwy edrych ar gymunedau lleol a dewis y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau newydd, gan flaenoriaethu teithio cynaliadwy, cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gan greu strydoedd a mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar wedi'u diffinio'n dda gan hyrwyddo cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog a hefyd sicrhau bod gwerth a pharch i'r rhinweddau cadarnhaol a'r gwahanol leoedd.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynghylch a oes gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 unrhyw wrthwynebiadau neu safbwyntiau ar gyfer datblygu'r Bwrdd Prosiect Llywodraethu a phwysau ariannol.

Nododd y Cabinet yr ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn rheolaidd wrth ddatblygu'r adroddiad a'u bod yn cefnogi ffurfio'r Bwrdd Prosiect Llywodraethu a manteision sefydlu'r Bwrdd.

Nododd y Cabinet ymhellach y bydd yr Aelod Cabinet dros Dai yn rhan o'r Bwrdd hwn, os ydynt o’r farn bod angen i'r Cabinet llawn ystyried mater penodol, yna bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Hefyd, yn yr adroddiad, mae mecanwaith i'r Cabinet dderbyn diweddariadau rheolaidd ar yr hyn mae'r Bwrdd wedi'i wneud.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am resymau oedd wedi’u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:-

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio.

2. Cymeradwyo sefydlu'r Bwrdd Prosiect Datblygu a Llywodraethu.

3. Bod cyfrifoldebau'r Bwrdd Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) yn cael eu cymryd gan y Bwrdd Prosiect Datblygu a Llywodraethu.

4. Cymeradwyo darparu 100 o gartrefi fforddiadwy carbon isel y flwyddyn.

5. Mabwysiadu Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru gan y Cyngor gan ei fod yn sail i ansawdd dylunio holl Ddatblygiadau Cartrefi Caerffili, ac mae'r Cyngor wedi llofnodi'r Siarter.

## 6. DIWEDDARIAD CYNLLUN GWASANAETHAU’R GAEAF

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Gwasanaethau’r Gaeaf fel polisi ac fel rhan o’r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, i ddarparu rhwydwaith priffyrdd diogel a rhoi diweddariad i'r Cabinet ar weithgareddau a blaenoriaethau allweddol gwasanaethau gaeaf mewn perthynas â chynnal a chadw a llifogydd yn y gaeaf.

Nododd y Cabinet, mae Gweithrediadau Priffyrdd wedi llunio Cynllun Gwasanaethau’r Gaeaf ers i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) gael ei sefydlu. Pwrpas y cynllun yw egluro cyfrifoldebau'r Cyngor dros gynnal y rhwydwaith seilwaith priffyrdd yn ystod cyfnod cynnal a chadw'r gaeaf (Hydref i Ebrill ar hyn o bryd). Mae'r cynllun hefyd yn rhoi arweiniad i gynghorwyr etholedig, staff y cyngor a'r cyhoedd ar weithdrefnau gweithredol a phwyntiau cyswllt yn ystod cyfnod cynnal a chadw'r gaeaf.

Cododd y Cabinet ymholiad ynghylch a fyddai'r cyfyngiadau cyflymder newydd o 20mya yn effeithio ar Gynllun y Gaeaf, er enghraifft graeanu yn ystod misoedd y gaeaf. Dywedodd y Pennaeth Isadeiledd wrth y Cabinet y byddai’n cael effaith. Cynhaliwyd treial ar y llwybrau a gyfyngir a bu cynnydd o 15 i 20 munud i bob llwybr. Eleni bydd gwaith monitro yn cael ei

wneud yn ystod misoedd y gaeaf, ac os bydd gofyn, mae'n bosibl y bydd llwybr ychwanegol a fydd yn cynyddu hyn i 9 llwybr. Os felly, bydd angen llawer o waith i'w newid oherwydd defnyddir dull optimeiddio llwybrau i sicrhau effeithlonrwydd o ran y llwybrau. Mae yna ddiweddariadau meddalwedd hefyd y bydd yn rhaid eu rhoi ar waith yn y feddalwedd a ddefnyddir yn y cerbydau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw Newid Hinsawdd yn cael effaith ar Gynllun y Gaeaf. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod yn cael effaith. Eglurodd y Swyddog er ein bod yn gweld tymereddau cynhesach yn y gaeaf, pan fydd digwyddiad, mae'n eithafol, er enghraifft, gallai fod llifogydd mwy eithafol neu eira eithafol yn disgyn.

Cydnabu'r Cabinet fod Cynllun Cynnal a Chadw'r Gaeaf yn hynod gymhleth ac yn ddarn ardderchog o waith.

Yn amodol ar gynnwys argymhelliad ychwanegol 3.2 i ddarllen: Bydd adolygiadau blynyddol y dyfodol yn cael eu hadrodd i'r CMT ac os bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun yn cael eu nodi bydd cymeradwyaeth y Cabinet yn cael ei chynnig a'i heilio i gymeradwyo'r argymhellion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am resymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol:

1. Cymeradwyo Cynllun Gwasanaethau'r Gaeaf.

2. Adrodd am adolygiadau blynyddol y dyfodol i'r CMT a phe bai unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun yn cael eu nodi gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet.

## 7. ASESIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a gyflwynodd yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol i'r Cabinet sy'n rhan o Fframwaith Perfformiad y Cyngor.

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o wybodaeth a dadansoddiad i'r Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod ffurflenni'r Asesiad yn rhan o weithgarwch 'hunanasesu' cyffredinol y Cyngor.

Nodwyd bod yr Asesiad wedi'i gyflwyno i Gyd-Graffu ar 20 Gorffennaf 2023 lle gwahoddwyd aelodau i drafod, herio a chraffu ar y wybodaeth yn yr adroddiad. Yn dilyn Cyd-Graffu, mae'r Asesiad bellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Nodwyd ymhellach fod Fframwaith Perfformiad y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2020 ac mae'r adroddiad yn cyflwyno un o elfennau allweddol y Fframwaith, sef yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol. Mae'r Asesiad yn 'hunanasesiad' o gynnydd yr Awdurdod ar draws ystod eang o fathau o wybodaeth. Mae'r Asesiad yn gyfle i aelodau ofyn, pa mor dda yr ydym yn perfformio? Pa dystiolaeth rydym yn ei defnyddio i benderfynu ar hyn.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Cabinet fod lefelau salwch CBSC yn y chwartel isaf o'u cymharu â lefelau awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, nid yw pob Cyngor yn cyflwyno eu ffigurau, ac mae hyn yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Nodwyd bod lefel salwch yn gostwng, fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddogion: –

1. Nodi sylwadau a her Asesiad Perfformiad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 o Gyd-Graffu fel y nodir yn adran 10.

2. Cymeradwyo'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 fel y nodir yn Atodiad 1.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL GORFODAETH DIOGELU'R CYHOEDD AR GYFER 2022/23**

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 13 Mehefin 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r adolygiad o gynnydd a pherfformiad gweithgarwch gorfodi a chynghori Diogelu'r Cyhoedd yn unol â'r Polisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd a fabwysiadwyd, gan gynnwys canlyniadau ymchwiliadau a gynhaliwyd o dan nawdd y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio. Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd ystyried, yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, system camera gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng y Cyngor i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden y Cabinet, fod Heddlu Gwent yn gofyn am wybodaeth gan Ddiogelu'r Cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw luniau teledu cylch cyfyng a allai fod ar gael, gallai hyn fod mewn perthynas ag unrhyw droseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi digwydd.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynghylch y rheswm dros pam y bu nifer mor uchel o gŵn yn cael eu dal mewn cenel a beth yw'r gost i'r Awdurdod Lleol.

Eglurodd y Swyddog fod nifer uchel o warantau wedi cael eu defnyddio yn ystod y misoedd diwethaf mewn perthynas â bridio cŵn anghyfreithlon. Oherwydd y nifer uchel o gŵn yn cael eu hatafaelu, natur y cŵn a'u cyflwr gwael mae wedi creu problem o ran eu cadw. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda Hope Rescue sy'n helpu gyda'r mater, fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gost eithaf sylweddol. Yn dilyn unrhyw erlyniad, gwneir cais i'r llys adennill unrhyw gostau, pan fo'n briodol.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Tîm Safonau Masnach am ganlyniad mor wych o ran achub y cŵn.

Nodwyd, mewn perthynas â gwerthu fêps dan oed a chynhyrchion eraill â chyfyngiad oedran, megis alcohol a sigaréts, bod Safonau Masnach wedi cynnal nifer o brofion prynu gyda'r defnydd o wirfoddolwyr dan oed yn targedu safleoedd penodol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu erlyniad llwyddiannus yn erbyn masnachwr a werthodd fêps i wirfoddolwr dan oed. Y ddirwy am y drosedd hon oedd £1250.00.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am resymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Ystyried cynnwys yr adroddiad gan gynnwys sylwadau a wnaed gan gyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 13 Mehefin 2023 fel y manylir yn adran 11.

2. Cymeradwyo'r adolygiad o gynnydd a pherfformiad gweithgarwch gorfodi a chyngor Diogelu'r Cyhoedd yn unol â'r Polisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd a fabwysiadwyd, gan gynnwys canlyniadau ymchwiliadau a gynhaliwyd o dan nawdd y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

3. Bod system camerâu gwyliadwriaeth cylch cyfyng y Cyngor yn parhau'n angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth.

## 9. CYNNIG I GAU YSGOL FABANOD CWM GLAS

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Medi 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar yr argymhelliad i fwrw ymlaen i ymgynghori mewn perthynas â chau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn Gorffennaf 2024.

Nododd y Cabinet, oherwydd y niferoedd ar y gofrestr oedd yn gostwng yn Ysgol Fabanod Cwm Glas, ac y rhagwelir y bydd hynny'n lleihau ymhellach, trefnwyd cyfarfod gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Casgliad y cyfarfod oedd cytundeb na allai'r ysgol gynnal y fantolen a lefel staffio briodol mwyach, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r Ysgol i fynd ar drywydd cau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Nodwyd ymhellach fod Ysgol Fabanod Cwm Glas ar hyn o bryd yn rhannu dalgylch gydag Ysgol Gynradd Coed y Brain lle mae disgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 yn amodol ar ddewis rhieni.

Mae'r cynnig yn ceisio pontio'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, er mwyn sicrhau darpariaeth ysgol gynradd gynhwysol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd hyn yn arwain at gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad o ran faint o leoedd gwag sydd yn ysgolion Caerffili ar hyn o bryd ac a ydym yn debygol o weld ysgolion yn cau yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth y Cabinet fod canran lleoedd gwag o 18% yn y Sector Cynradd ar hyn o bryd a 15% yn y Sector Uwchradd, a gall hyn newid yn dibynnu ar nifer o ffactorau a darpariaethau y gallwn eu rhoi ar waith, megis defnydd Cymunedol, gofal plant, ac ati. Mae nifer y genedigaethau byw yn gostwng ledled Cymru. Mae'r Ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'i gilydd i rannu data yn flynyddol ac yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â lleoedd gwag, fel gofal plant neu ddefnydd cymunedol.

Yn dilyn ymholiad cafodd y Cabinet wybod bod data genedigaethau byw yn cael eu derbyn yn flynyddol gan yr Awdurdod Iechyd. Rhwng 2015 a 2021 bu gostyngiad o tua 500 o blant yn y data geni byw yng Nghaerffili. Yn 2023 gwelwyd arwydd bod cynnydd bychan iawn wedi bod mewn genedigaethau byw.

Nododd y Cabinet, er bod Aelodau'r Ward Leol yn siomedig yn y sefyllfa yng Nghwm Glas, eu bod yn deall yn llawn y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig fel ag y mae'r ysgol a'r Corff Llywodraethu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn

cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddogion:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad

2. Cymeradwyo bwrw ymlaen i ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

**10. Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN – BWRDD RHAGLEN Y GRONFA A CHYLCH GORCHWYL**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa CBSC o ran rôl Bwrdd Rhaglen Cronfa'r DU wrth ddarparu arweinyddiaeth weithredol i gyflawni'r Cynllun Buddsoddi Lleol o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU fel rhan o raglen Ffyniant Bro ledled y DU.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Rhaglen y Gronfa; gan geisio dirprwyaeth briodol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau amserol ar drosglwyddo cyllid o fewn y Rhaglen i gydnabod y cyfyngiadau amser hynod dynn sy'n gysylltiedig â chyflwyno Rhaglen y Gronfa erbyn mis Mawrth 2025.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a'r Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd yn dymuno cofnodi eu cefnogaeth a diolch i Swyddogion o ran cael yr arian trwodd cyn gynted â phosibl, yn enwedig i'r gymuned fusnes.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo am resymau oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion y Cylch Gorchwyl cyfredol ar gyfer Bwrdd Rhaglen y Gronfa sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 sy'n amlinellu'r ddirprwyaeth briodol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau amserol o ran trosglwyddo cyllid o fewn Rhaglen y Gronfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.04 pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 18 Hydref 2023.

________________________

CADEIRYDD